

<p><b><u>Yn Bresennol</u></b></p> <p><b>Aelodau'r Bwrdd:</b>  Y Cyngorydd Huw Thomas  <b>(Cadeirydd)</b>  Paul Orders  Sarah McGill  Charles Janczewski  Fiona Kinghorn  Mark Brace  Stephen Jones  Sheila Hendrickson-Brown  Jo Salway  Dai Bents  Keith Meredith  Caroline Drayton</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b>  Abigail Harris  Len Richards  Huw Jakeway  Gareth O'Shea  Hannah Williams  Victoria Harris</p> <p><b>Hefyd yn bresennol:</b>  Helen Ryder  Louise Forman  Anne Wei  Gareth Newell  Nathan Swain  Clive Bailey (Clerc)</p>	<p>Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC)  Prif Weithredwr, CC  Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC  Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, (BIP CaF)  Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro  Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru (HDC)  Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru  Prif Swyddog Gweithredol, C3SC  Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru  Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC)  Rheolwr Grŵp, GTADC  Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro  Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro  Prif Swyddog Tân, GTADC  Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC  Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)  Prif Swyddog Prawf Cynorthwyol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol</p> <p>Llywodraethwr, Carchar EM Caerdydd  Pennaeth y Gwasanaeth Integreiddio, GPC  Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP CaF  Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC  Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC  Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC</p>
---	---

Rhif	Eitem Agenda	
1.	<p><b>Croeso a Chyflwyniadau</b></p> <p>Yn dilyn taith o CEM Caerdydd, agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Croesawyd Charles Janczewski, Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan gymryd lle Maria Battle fel Is-gadeirydd y BGC.</p>	
2.	<p><b>CEM Caerdydd</b></p> <p>Trafodwyd y cysylltiadau a wnaed rhwng CEM Caerdydd a Gwasanaethau i Mewn i Waith y Cyngor a gwaith partneriaeth i sicrhau tai i'r rhai sy'n gadael y carchar. Nodwyd nad oes gan tua 40% o bobl sy'n gadael carchar gartref i fynd iddo.</p> <p>Trafodwyd bregusrwydd carcharorion hefyd - gan groesawu'r ffaith bod darpariaeth iechyd meddwl yn cael ei chryfhau yng Ngharchar EM Caerdydd.</p> <p><b>CAM GWEITHREDU:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu hyfforddiant tenantiaeth i helpu pobl sy'n gadael y carchar i osgoi problemau fel ôl-ddyledion rhent, ymddygiad gwrth-gymdeithasol a chogio. Sarah McGill/Jane Thomas i gydgyssylltu â'r Gwasanaeth Prawf, CEM Caerdydd a HDC.</li> </ul>	<p><b>Sarah McGill/ Jane Thomas</b></p>
3.1	<p><b>BGC Caerdydd 21 Mai 2019 - cofnodion</b></p> <p>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar y camau gweithredu.</p> <p><b>CAMAU GWEITHREDU:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Jo Salway i wneud ymholiadau ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol y Fro yn parhau i dalu'r cyflog byw i staff.</li> <li>• Cadeirydd y BGC i ysgrifennu at Vaughan Gething ar y mater hwn.</li> </ul>	<p><b>Jo Salway</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>
3.2	<p><b>Cyfarfod Bwrdd Cyflawni'r BGC ar 17 Medi 2019 - cofnodion drafft/diweddariad ar gamau gweithredu</b></p> <p>Ni chodwyd unrhyw gamau gweithredu pellach.</p>	
4.	<p><b>Anghydraddoldeb Iechyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg</b></p> <p>Cyflwynodd Fiona Kinghorn (Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd) ddata ar anghydraddoldebau iechyd, gweithredoedd presennol a chyfleoedd partneriaeth posibl ar gyfer y meysydd pwnc allweddol.</p>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Y byddai BGC Caerdydd yn cytuno i gyfres o ymrwymadau ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd yng Nghaerdydd yng nghyfarfod nesaf y BGC.</li> </ul> <p><b>CAMAU GWEITHREDU:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Aelodau'r BGC i ystyried y camau gweithredu arfaethedig o dan bob mater iechyd, awgrymu unrhyw gamau gweithredu ychwanegol a chynnig cyfres o ymrwymadau ynghyd â sut y gellid eu cyflawni/yr adnoddau sydd eu hangen yng nghyfarfod nesaf y BGC.</li> <li>Gwneud cais am gyllid o'r gronfa ataliol er mwyn sicrhau adnoddau i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen. (yn gysylltiedig â chamau gweithredu o dan eitem 5 – Symud Mwy Bwyta'n Dda)</li> <li>Iechyd y Cyhoedd i ystyried cynnwys gwiriad o statws imiwneiddio yn y broses dderbyn i ysgolion.</li> <li>Datblygu a lansio'r ymgyrch imiwneiddio ar gyfer staff ar draws y bartneriaeth.</li> <li>Sgrinio - sefydlu mecanwaith er mwyn i bob partner allu defnyddio negeseuon cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir i dargedu staff a gwahanol grwpiau o'r boblogaeth/ardaloedd o'r ddinas.</li> </ul>	<p><b>Pawb/Fiona Kinghorn/ Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Fiona Kinghorn</b></p> <p><b>Fiona Kinghorn</b></p> <p><b>Fiona Kinghorn</b></p> <p><b>Fiona Kinghorn</b></p>
5.	<p><b>Symud Mwy, Bwyta'n Dda: Blaenoriaethau strategol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg</b></p> <p>Crynhodd Fiona Kinghorn y 10 maes blaenoriaeth strategol sydd wedi eu nodi ar gyfer y cynllun gweithredu Symud Mwy, Bwyta'n Dda.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaeth ar ddefnyddio cyllid ar gyfer gwaith ataliol er mwyn meithrin gallu i fynd i'r afael â'r agenda ehangach o anghydraddoldebau iechyd.</p> <p><b>CAMAU GWEITHREDU:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Archwilio cyfleoedd ar gyfer defnyddio cronfa ataliol i fynd i'r afael â'r agenda ehangach o anghydraddoldebau iechyd. (yn gysylltiedig â'r cam gweithredu yn eitem 4 – anghydraddoldebau iechyd)</li> <li>Ymgynghori â sefydliadau rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol ar y cynllun symud mwy, bwyta'n dda drafft.</li> </ul>	<p><b>Fiona Kinghorn</b></p> <p><b>Fiona Kinghorn</b></p>

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn dilyn ei lansio, ymgysylltu â'r cyhoedd ar sut y dylid gweithredu'r cynllun gan gynnwys y rhwystrau i'w goresgyn er mwyn cyflawni ei nodau.</li> </ul>	<b>Fiona Kinghorn</b>
6.	<b>Brexit</b> - Gohirio'r eitem o gofio estyniad dyddiad cau Brexit	
7.	<p><b>Sganiao'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall</b></p> <p><b>7.1 Llywodraethu'r BGC</b> <b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Y dylai'r cyfarfod Bwrdd Cyflawni'r BGC gael ei ddisodli gan gyfarfod Gosod yr Agenda ('cynhadledd agenda')</li> <li>Y byddai BGC Caerdydd i ymgymryd â'r rôl o fod yn Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd.</li> <li>Y byddai cylch gorchwyl y BGC yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r trefniadau newydd.</li> </ul> <p><b>SAC – Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Jo Salway i gydgylltu â Gareth Newell i drafod gweithrediadau BGCau ledled Cymru.</li> </ul> <p><b>Blaengynllun y BGC</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiad ar Adeiladau Uchel yng Nghaerdydd i fod yn eitem mewn cyfarfod BGC yn y dyfodol.</li> </ul>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Jo Salway/ Gareth Newell</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>
	<p><b>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>BGC Caerdydd 21 Ionawr 2020</li> <li>Cyfarfod Gosod yr Agenda i'w gadarnhau</li> </ul>	